

A close-up photograph of an elderly person's hand, showing wrinkled skin and a ring on the ring finger. The hand is positioned on the right side of the frame, with the fingers slightly curled. The background is dark and out of focus.

Rhestr Ddarllen  
**Cydraddoldeb, Hawliau  
Dynol, Tlodi, Llesiant a'r  
Trydydd Sector**

---

Dyddiad: **Mai 2016**



**National Assembly for Wales**  
Research Service

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

## Cysylltwch â ni

Y Gwasanaeth Ymchwil  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Tŷ Hywel  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

☎ : 0300 200 6328

✉ : [Llyfrgell@Cynulliad.Cymru](mailto:Llyfrgell@Cynulliad.Cymru)

🌐 : [Cynulliad.Cymru/Pigion](http://Cynulliad.Cymru/Pigion)

🐦 : [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)

🌐 : [Cynulliad.Cymru/Ymchwil](http://Cynulliad.Cymru/Ymchwil)

### © Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen

# Cydraddoldeb, Hawliau Dynol, Tlodi, Llesiant a'r Trydydd Sector

## Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Mae blogiau canlynol y Gwasanaeth Ymchwil yn lle da i ddechrau archwilio cyflwr presennol cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. Mae blogiau penodol ar faterion cyfoes fel cam-drin domestig, gwahaniaethu ar sail oed, ffoaduriaid, menywod mewn bywyd cyhoeddus, trosedd casineb a masnachu mewn pobl.

## Cydraddoldeb

**A yw Cymru'n decach? Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol, Rhagfyr 2015.**

- **Canllaw cyflym i ddyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus, Mehefin 2013.**
- **Sut y gall Cymru wneud y gorau o gyfraniad menywod i'r economi, Mehefin 2015.**
- **Diwrnod Rhyngwladol y Menywod 2016 - Mawrth 2016.**
- **Menywod mewn bywyd cyhoeddus, Hydref 2013.**
- **Byd sydd ag obsesiwn ag oed ac sydd â syniadau ystrydebol am bobl hŷn? Ionawr 2015.**

## Hawliau Dynol

- **Sut bydd argyfwng ffoaduriaid Syria yn effeithio ar Gymru? Medi 2015.**
- **Y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod – blwyddyn wedi pasio, Mehefin 2015.**
- **Deddf Trais yn Erbyn Menywod - sut mae'r darpariaethau addysg wedi datblygu, Mawrth 2015.**
- **Trais yn erbyn menywod - beth sy'n cael ei wneud yng Nghymru?, Chwefror 2014.**
- **Beth yw trosedd casineb?, Mai 2014.**
- **O'r golwg yng ngolwg pawb: masnachu mewn pobl yng Nghymru, Tachwedd 2013.**
- **Amser pwysig i hawliau plant yng Nghymru, Tachwedd 2015.**
- **A yw Llywodraeth Cymru yn cyflawni o ran hawliau plant a phobl ifanc, Mehefin 2015.**

Mae gan Lywodraeth Cymru amrywiaeth o strategaethau ar gydraddoldeb a hawliau dynol, gan gynnwys:

- **Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac amcanion ar gyfer 2016-20 (PDF 363KB).**
- **Cynllun cyflenwi ffoaduriaid a cheiswyr lloches (diweddariad 2016).**
- **Trais yn erbyn menywod - arweiniad y sector cyhoeddus a gwybodaeth am y Cynghorydd Cenedlaethol Trais yn Erbyn Menywod.**
- **Cynllun gwrth-gaethwasiaeth ac adroddiadau blynyddol.**
- **Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith Gweithredu.**
- **Cynllun Gweithredu Trawsrywiol.**

- Teithio at ddyfodol gwell - cynllun gweithredu ar gyfer sipsiwn a theithwyr (diweddariad Mawrth 2016).
- Fframwaith Gweithredu ar Fyw'n Annibynnol i bobl anabl.
- Cynyddu amrywiaeth mewn penodiadau cyhoeddus.
- Cynllun cyflenwi cydlyniant cymunedol 2016-17 ac adroddiadau cynnydd.

## Deddfwriaeth

- Y Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.
- Dyletswyddau cydraddoldeb penodol y sector cyhoeddus yng Nghymru.
- Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

## Fforymau a Chyllid Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Llywodraeth Cymru

---

- Grŵp Ymgynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb (BAGE).
- Grant cydraddoldeb a chynhwysiant 2014-17 - sefydliadau a ariennir.
- Fforwm Cymunedau Ffydd - fforwm rhwng Llywodraeth Cymru a grwpiau ffydd.
- Fforwm Hil Cymru.

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yw'r rheolydd cydraddoldeb ar gyfer Prydain Fawr. Mae'r Comisiwn yng Nghymru yn cynnal rhaglen o waith gan gynnwys ymchwil, cynghori'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru a defnyddio ei bwerau cyfreithiol i wella mynediad at gyfiawnder.

Mae **ymchwil** Y Comisiwn yn cynnwys:

- **A yw Cymru'n decach? 2015**
- **Dadansoddiad o anghydraddoldeb economaidd yng Nghymru** (2014), sef adolygiad cynhwysfawr, academiaidd o ddata anghydraddoldeb yng Nghymru.
- **Hawliau dynol yng Nghymru.**

Mae'r Comisiwn hefyd yn cyhoeddi **canllawiau** ac **adroddiadau monitro** ar ddyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Yn ogystal, mae Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin wedi cyhoeddi cyfarwyddyd ar **The UN Inquiry into the Rights of Persons with Disabilities in the UK.**

## Hawliau Plant

- Mae gwefan **Hawliau Plant yng Nghymru** (a gynhyrchwyd gan Achub y Plant) wedi ei chynllunio i helpu ymarferwyr lleol, llunwyr polisi, rheolwyr a strategwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth o hawliau plant a sut i fabwysiadu safbwynt hawliau plant yn eu gwaith.
- Mae gan **wefan y Comisiynydd Plant** hefyd amrywiaeth o wybodaeth a chanllawiau ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

## Tlodi

Cyhoeddiadau'r Gwasanaeth Ymchwil ar dlodi:

- **Sut yr aeth Cymru ati i drechu tlodi yn 2015**, Rhagfyr 2015.
- **Tlodi ac anghydraddoldeb yng Nghymru - beth sydd wedi newid?** Hydref 2015.
- **Cynhwysiant ariannol yng Nghymru - beth sydd gan Lywodraeth Cymru ar y gweill?** Ionawr 2015.
- **Nodyn Ymchwil ar Dechrau'n Deg**, Mawrth 2014 (PDF 231 KB).
- **Tlodi Tanwydd a Chynlluniau Effeithlonrwydd Ynni**, Ebrill 2015
- **Diwylliant a thlodi: a all diwylliant chwarae rôl bwysicach wrth sicrhau cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru?**, Tachwedd 2014.
- **Diweddariad Tlodi Plant: Adroddiad y DU 'yn dangos bod Prydain ar fin dod yn genedl sydd wedi'i rhannu'n barhaol'**, Hydref 2014.

## Strategaethau, Dogfennau a Thudalennau Gwe Llywodraeth Cymru

---

- **Adeiladu cymunedau gwydn: Bwrw ymlaen â'r cynllun mynd i'r afael â gweithredu tlodi a'r adroddiadau blynyddol.**
- **Rhaglen Lywodraethu 2011-16 - adroddiad cynnydd ar fynd i'r afael â thlodi.**
- **Cymunedau yn Gyntaf.**
- **Gwasanaethau cyngor - fframwaith ansawdd gwybodaeth a chyngor ar gyfer Cymru.**
- **Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Cymru 2016.**
- **Strategaeth Tlodi Plant ddiwygiedig ar gyfer Cymru 2015.**

Cynhaliodd Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y Pedwerydd Cynulliad raglen o waith ar dlodi yng Nghymru yn 2015.

Cyhoeddwyd yr **adroddiad cyntaf** ym mis Mai 2015, ac mae'r dogfennau sy'n ymwneud ag **ail ran** yr ymchwiliad ym mis Ionawr 2016 ar dudalennau gwe y pwyllgor.

Mae Sefydliad Joseph Rowntree (JRF) yn elusen polisi cymdeithasol ac ymchwil, ac yn gweithio gyda Sefydliad Bevan yng Nghymru ar faterion tlodi yng Nghymru. Mae'r ddau sefydliad wedi cyhoeddi'r papurau diweddar hyn ar dlodi yng Nghymru.

- **Monitro tlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru**, Medi 2015.
- **Monitor Digartrefedd: Cymru 2015.**
- **Tuag at Gymru di-dlodi: syniadau sy'n dod i'r amlwg, Awst 2015.**

Mae prosiect y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru, 'Beth sy'n gweithio wrth fynd i'r afael â thlodi' wedi cynhyrchu nifer o adroddiadau ymchwil:

- **Ailystyried y Rhaglen Waith yng Nghymru** (PDF 795 KB).
- **Mesur manteision ymyrraeth gynnar yng Nghymru: Astudiaeth Dichonoldeb.**

- **Effaith dyled ar gymunedau ac aelwydydd difreintiedig.**
- **Dulliau o ymdrin â digartrefedd.**
- **Effaith Diwygiadau Llesiant ar Bolisi Tai yng Nghymru - Adolygiad Tystiolaeth Cyflym.**

## Llesiant

Nid yw Llesiant yn fater datganoledig, ond mae wedi cael effaith enfawr ar boblogaeth Cymru. Mae gan wefan Llywodraeth y DU gasgliad defnyddiol **o ddogfennau** ar ddiwygio Llesiant.

Mae Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin hefyd wedi cyhoeddi nifer o sesiynau briffio ar lesiant, gan gynnwys:

- **Effaith y didyniad ar gyfer tan-feddiannaeth o Fudd-dal Tai (tai rhent cymdeithasol).**
- **Y Cap Budd-daliadau.**
- **Ystadegau ar ymfudwyr a budd-daliadau.**
- **Credyd Cynhwysol: newidiadau o Ebrill 2016.**

Mae blog y Gwasanaeth Ymchwil ar **Y Gyllideb - yr hyn y mae'n ei olygu ar gyfer Llesiant yng Nghymru** o fis Gorffennaf 2015 yn rhoi crynodeb o'r prif newidiadau i'r system lesiant yn sgil cyllideb 2015.

## Adroddiadau Defnyddiol Eraill

- Sefydliad Bevan, **A all Llesiant weithio i Gymru - adroddiad sylfaenol**, Tachwedd 2015.
- Llywodraeth Cymru, **Dadansoddi effaith diwygiadau Llesiant yng Nghymru - cyfres papurau ymchwil.**
- Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Pedwerydd Cynulliad, **Ymateb i Ddiwygio Llesiant yng Nghymru (PDF 712MB).**
- Swyddfa Archwilio Cymru, **Rheoli Effaith Diwygio Llesiant ar Denantiaid Tai Cymdeithasol yng Nghymru**, Ionawr 2015.
- Prifysgol Hallam Sheffield, **Effaith Leol Diwygio Llesiant yng Nghymru**, 2014.

## Y Trydydd Sector

- Cafodd cynllun y Trydydd Sector Llywodraeth Cymru (2014) a'r **polisi gwirfoddoli** (2015) eu diwygio yn ddiweddar.
- Mae **Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru 2014-15** (a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2016) ar y trydydd sector yn cynnwys amlinelliad o'r newidiadau diweddar i gynllun seilwaith y trydydd sector.

Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) yn cynhyrchu amrywiaeth o **ymchwil** ar y trydydd sector, gan gynnwys:

- **Cronfa Ddata Cymru Gyfan Mudiadau Gwirfoddol yng Nghymru**, Ionawr 2016.
- **Cyllid y Trydydd Sector 2013-14 Crynodeb Gweithredol.**
- **Dadansoddiad o gronfa ddata Cymru Gyfan o fudiadau gwirfoddol yng Nghymru yn ôl lleoliad yn ôl sir, a gweithredol mewn siroedd**, Ionawr 2016.